



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysboeth
Y Brif Ffordd
Ynysboeth
Aberpennar
RhCT
CF45 4LJ**

Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2014

Cyd-destun

Agorwyd Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysboeth ym Medi 2012 mewn adeilad dros dro, yn dilyn uno'r ysgol fabanod a'r ysgol iau a oedd ar wahân yn flaenorol. Symudodd i'w safle newydd a adeiladwyd yn bwrpasol yn Rhagfyr 2013. Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal Cymunedau yn Gyntaf Ynysboeth a Matthewstown yng Nghwm Cynon.

Mae 181 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd, gan gynnwys 22 o blant meithrin amser llawn. Mae'n cynnwys tri dosbarth un oedran a phedwar dosbarth oedran cymysg. Mae tua 48% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan ryw 25% anghenion dysgu ychwanegol, sy'n debyg i'r cyfartaledd cenedlaethol; nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad o angen addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol, yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol neu'n cael gofal gan yr awdurdod lleol. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn defnyddio Cymraeg fel mamiaith.

Arolygwyd yr ysgol fabanod ddiwethaf yn Hydref 2006 a'r ysgol iau yn Chwefror 2007. Dechreuodd y pennaeth presennol ar ei swydd ym Mai 2012.

Mae'r gyllideb ysgol unigol ar gyfer Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysboeth yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,967 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £7,033 a'r isafswm yw £2,659. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Ynysboeth yn safle 30 allan o'r 110 o ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2013 ar y lefel ddisgwyliedig, roedd perfformiad disgyblion uwchlaw cyfartaledd y teulu ym mhob un o'r tri phwnc craidd;
- ar y lefel uwch mewn mathemateg, roedd perfformiad disgyblion uwchlaw cyfartaledd y teulu ac yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg;
- mae bron pob disgybl yn gwneud y cynnydd disgwyliedig trwy'r ysgol ac mae rhai ohonynt yn rhagori ar eu targedau;
- mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da â'u medrau llythrennedd a rhifedd ac mae safonau mewn darllen, yn arbennig, yn gwella;
- mewn Cymraeg ail iaith, mae mwyafrif y disgyblion yn cyflawni safonau da mewn llafaredd erbyn Blwyddyn 6;
- mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu; ac
- mae bron yr holl addysgu'n dda.

Fodd bynnag:

- yn y Cyfnod Sylfaen, roedd perfformiad disgyblion dros y ddwy flynedd ddiwethaf ymhell islaw cyfartaledd y teulu a gosododd yr ysgol yn y 25% isaf yn gyson o ysgolion tebyg ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch;
- yn 2013 yng nghyfnod allweddol 2, o gymharu ag ysgolion tebyg, fe wnaeth perfformiad disgyblion mewn Saesneg a gwyddoniaeth ar y lefel ddisgwyliedig osod yr ysgol yn y 50% is ac, ar y lefel uwch, gosododd yr ysgol yn y 25% isaf;
- mae safon llawysgrifen a chyflwyniad yn anghyson; ac
- er eu bod yn gwella, mae presenoldeb a phrydlondeb yn waeth nag ydynt yn y rhan fwyaf o ysgolion eraill, ac mae absenoldebau anawdurdodedig a nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn gymharol uchel.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol gref ac mae ganddi ddisgwyliadau uchel;
- mae'r dirprwy bennaeth yn rhoi cymorth da ac mae'r uwch dîm rheoli yn rhagweithiol;
- mae diwylliant cryf o waith tîm yn yr ysgol;
- mae llywodraethwyr yn gefnogol a gwybodus ac maent yn rhoi blaenoriaeth

uchel i godi safonau;

- mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac effeithiol;
- mae mentrau newydd yn cael effaith sylweddol ar safonau a darpariaeth; ac
- mae partneriaethau effeithiol yn bodoli gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill.

Argymhellion

- A1 Gwella perfformiad cyffredinol disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ar y lefelau disgwylidig a'r lefelau uwch fel ei gilydd
- A2 Gwella safonau llawysgrifen a chyflwyniad disgyblion
- A3 Gwella lefelau presenoldeb a phrydlondeb
- A4 Sicrhau bod gweithdrefnau asesu, fel marcio a safoni gwaith disgyblion, yn cael effaith uniongyrchol ar godi safonau

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae safonau cyflawniad yn gwella ar y cyfan, ond mae agweddau ar fedrau allweddol nad ydynt wedi'u datblygu o hyd.

Ar draws yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwrando'n dda iawn ac mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus ac yn huawdl mewn ystod o gyd-destunau. Mae pob un ohonynt yn mwynhau darllen ystod o lyfrau ffuglen a llyfrau ffeithiol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod o strategaethau i'w helpu i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer ohonynt yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda, ond lleiafrif ohonynt yn unig sy'n defnyddio ystod o fedrau lefel uwch, fel brasddarllen a sganio, yn gymwys.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion iau yn ymarfer creu marciau yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae rhai disgyblion hŷn yn ysgrifennu brawddegau byr yn annibynnol gyda sillafu ac atalnodi cywir. Fodd bynnag, nid yw gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i greu darnau estynedig o ysgrifennu wedi'i ddatblygu ddigon. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu ar eu pen eu hunain mewn amrywiaeth o arddulliau, fel llythyrau, storïau, a barddoniaeth, gan ddefnyddio cywirdeb cynyddol ac ystod o eirfa. Gall rhai disgyblion mwy abl ddefnyddio atalnodi datblygedig yn dda ac maent yn cyfuno brawddegau cymhleth a syml yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau ysgrifennu'n dda mewn gwaith testun ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae safon llawysgrifen a chyflwyniad yn anghyson.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyson wrth ddatblygu eu medrau rhifedd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gallant ddarllen ac ysgrifennu rhifau i 100 a chymharu rhifau dau ddigid a'u rhoi yn eu trefn. Gall y rhan fwyaf ohonynt ddidoli a chyfateb gwrthrychau a dechrau defnyddio unedau mesur ac arian safonol. Maent yn casglu ac yn cofnodi data mewn ffyrdd amrywiol mewn gwahanol feysydd dysgu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion alw i gof fwyafrif y tablau llusoi. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd i'r afael â phroblemau yn hyderus ac yn defnyddio strategaethau amgen i gael atebion cywir. Gallant gyfrifo gan ddefnyddio degolion a chanrannau ac maent yn gyfarwydd â rhifau negyddol a thablau trawsnewid metrig, ond maent yn llai hyderus wrth ddeall ffracsiynau. Mae bron pob disgybl yn gwybod iaith a phriodweddau siapiau dau a thri dimensiwn. Ceir tystiolaeth o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau mathemategol yn effeithiol i sefyllfaoedd bywyd go iawn, ond yn llai ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn gwrando ac yn ymateb yn briodol i'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth ac maent yn adeiladu eu geirfa a'u dealltwriaeth yn gyson. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif ohonynt yn cyflawni safonau da

mewn llafaredd erbyn Blwyddyn 6. Fodd bynnag, cyfyngedig yw eu gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwylidig a'r deilliant 6 uwch, fe wnaeth cyrhaeddiad ar y ddwy lefel am y ddwy flynedd diwethaf osod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad ar y lefel 4 ddisgwylidig a'r lefel 5 uwch wedi amrywio'n sylweddol. Mewn Saesneg ar y ddwy lefel, mae'r ysgol wedi symud rhwng y 25% isaf a'r 50% is o ysgolion tebyg. Mewn mathemateg, mae wedi symud rhwng y 25% uchaf ac isaf ar y lefel ddisgwylidig a rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf ar y lefel uwch. Mewn gwyddoniaeth, mae wedi symud rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf ar y lefel ddisgwylidig a rhwng y 50% is a'r 25% isaf ar y lefel uwch.

Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol â lefel isel o ran medrau, ond mae bron pob un ohonynt yn gwneud y cynnydd disgwylidig trwy'r ysgol ac mae rhai ohonynt yn rhagori ar eu targedau. Nid oes unrhyw grwpiau penodol yn tangyflawni'n barhaus, er nad yw bechgyn, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn aml yn gwneud cystal mewn darllen ac ysgrifennu.

Lles: Digonol

Mae gan bron bob disgybl agweddau da at ddysgu. Maent yn gwrtais ac yn barchus ac yn dangos pryder am ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent wedi'u cymell yn dda ac yn ymgysylltu'n llawn mewn gwersi. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder yn eu gwaith ac yn cydweithio'n dda â disgyblion eraill. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.

Mae gan bob disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd ffordd iach o fyw a diet cytbwys. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn deall sut i gadw'n weithgar ac yn iach hefyd ac mae llawer ohonynt yn mwynhau cymryd rhan mewn clybiau a gweithgareddau ysgol. Mae pob un ohonynt yn teimlo'n ddiogel ac maent yn hyderus i fynd at oedolion pan fydd angen cymorth arnynt.

Er bod cyfraddau presenoldeb a phrydlondeb yn gwella'n araf, maent yn parhau i fod islaw cyfartaleddau'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru gyfan. Mae absenoldebau anawdurdodedig a nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn gymharol uchel. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn hwyr yn rheolaidd.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwneud penderfyniadau. Mae aelodau wedi helpu i ddewis y wisg ysgol newydd a lliwiau ar gyfer dodrefn. Maent wedi cymryd rhan mewn penderfynu cynllun y maes chwarae hefyd. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw eu rolau a'u cyfrifoldebau wedi'u datblygu ddigon.

Mae disgyblion yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol amrywiol, fel codi sbwriel a mynychu'r senotaff lleol ar Ddydd y Cofio.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cyflawni gofynion statudol. Mae athrawon yn cynllunio'n drylwyr ac yn cydweithio i sicrhau bod cydraddoldeb ar draws grwpiau blwyddyn.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau allweddol. Mae'n rhoi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith yn llwyddiannus. Mae ysgolion medrau a gyflwynwyd yn ddiweddar yn sicrhau ymdriniaeth a dilyniant effeithiol yn nysgu disgyblion. Mae'r ysgol wedi cyflwyno nifer o raglenni ymyrraeth llwyddiannus, fel ffoneg synthetig, sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae darpariaeth dda ar gyfer ystod o weithgareddau allgyrsiol. Mae'r ysgol yn croesawu amrywiaeth o ymwelwyr ac yn trefnu ymweliadau i ddisgyblion â lleoedd o ddiddordeb sy'n gwella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u hardal.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu Cymraeg llafar, ond mae'n fwy cyfyngedig ar gyfer darllen ac ysgrifennu. Mae pob un o'r staff yn dangos medrau dwyieithog da ac yn mynd ati i ennyn diddordeb disgyblion mewn defnyddio'r Gymraeg mewn arferion bob dydd. Rhoddir cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru, er enghraifft trwy wasanaethau rheolaidd â ffocws Cymreig iddynt.

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ddatblygiad cynaliadwy, er enghraifft mewn perthynas ag arbed ynni, lleihau gwastraff a gofalu am y blaned. Mae'r cyngor eco yn mynd ati i hyrwyddo'r mentrau hyn.

Mae'r ysgol yn datblygu ei darpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang trwy gysylltiadau â diwylliannau a chrefyddau eraill, er enghraifft yn Wganda.

Addysgu: Da

Ers yr uno, mae uwch arweinwyr wedi gweithio'n agos â'r awdurdod lleol i wella ansawdd yr addysgu. Mae pob un o'r athrawon yn paratoi gwersi erbyn hyn ac mae ganddynt wybodaeth gefndirol dda a disgwyliadau uchel. Maent yn darparu gweithgareddau dysgu pwrpasol gyda deunyddiau cymorth o ansawdd da sy'n cymhell ac yn herio disgyblion yn dda.

Bron ym mhob gwers, mae athrawon yn rheoli amser ac ymddygiad yn llwyddiannus ac yn sefydlu arferion effeithiol. Defnyddiant ystod o strategaethau dysgu ac maent yn gweddu gweithgareddau'n dda i oedrannau a galluoedd disgyblion. Maent yn cynnal gwersi ar gyflymder da, ond yn cyfarwyddo'r dysgu yn ormodol o bryd i'w gilydd.

Mae pob un o'r athrawon yn fodelau rôl da ac maent yn sefydlu perthynas waith dda gyda disgyblion. Maent yn eu canmol ac yn eu hannog yn briodol. Defnyddiant

dechnegau holi perthnasol ac maent yn gwerthfawrogi ymatebion disgyblion i'w helpu i gyflawni.

Mae'r ysgol yn ymgymryd ag ystod o weithdrefnau asesu perthnasol sy'n cyflawni gofynion statudol. Mae wedi datblygu ei system olrhain ei hun, sy'n galluogi staff i fonitro a dadansoddi anghenion a chynnydd disgyblion yn effeithiol a gosod targedau priodol.

Mae pob un o'r athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn dda mewn gwersi ac yn cynnwys disgyblion mewn asesu eu dysgu eu hunain. Mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn y Cyfnod Sylfaen ac mewn ysgrifennu ym mhob dosbarth, gosodir targedau unigol yn effeithiol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn mewn pynciau eraill.

Mae athrawon yn marcio gwaith yn gydwobodol ac yn rhoi sylwadau cadarnhaol a chefnogol. Fodd bynnag, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r rhain yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith yn gyffredinol. Mae adroddiadau blynyddol disgyblion yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i rieni am gyflawniadau eu plant ac maent yn cynnwys targedau priodol ar gyfer gwella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r gofal, y cymorth a'r arweiniad a gynigir i ddisgyblion yn effeithiol iawn, ac mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac eisiau dysgu o ganlyniad.

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a threfnus. Mae'n rhoi cymorth da ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion, er enghraifft trwy ei rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol.

Mae'r ysgol wedi gwneud y trefniadau priodol i hyrwyddo ac annog bwyta ac yfed yn iach. Mae'n galluogi disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o ddiet iach a phwysigrwydd ymarfer corff, er enghraifft trwy'r clwb brechwast, y siop ffrwythau a darparu ffynhonnau dŵr.

Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech erbyn hyn i wella lefelau presenoldeb a phrydlondeb trwy fathau amrywiol o wobrau a chymhellion, sy'n dechrau cael effaith. Mae ganddi bolisiau a gweithdrefnau effeithiol hefyd i reoli ymddygiad yn dda. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae lefel diogeledd ar y safle yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn nodwedd dda yn yr ysgol. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn sefydlu rhaglenni cymorth priodol yn gyflym. Mae systemau effeithlon ar waith i fonitro ac asesu cynnydd disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir a mesuradwy, yn seiliedig ar ymgynghori â rhieni. Mae'r rhain yn helpu disgyblion i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol ag ystod o asiantaethau arbenigol allanol i gefnogi pob disgybl, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai sydd ag anghenion

cymdeithasol, emosiynol neu anghenion dysgu. Caiff hyn effaith fuddiol ar iechyd a lles disgyblion.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo ethos hapus a gofalgar yn effeithiol, yn seiliedig ar ei nodau a'i gwerthoedd. Mae'n darparu amgylchedd dysgu cadarnhaol iawn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfle cyfartal yn llwyddiannus ac mae'n rhoi'r un cyfle i ddisgyblion fanteisio ar bob agwedd ar fywyd ysgol. Mae'n sicrhau bod staff a disgyblion yn trin ei gilydd yn deg a'u bod yn rhydd o aflonyddu, stereoteipio negyddol neu wahaniaethu.

Mae staff yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol yn effeithiol ac yn annog agweddau goddefgar a pharch at bobl o gefndiroedd gwahanol. Mae disgyblion yn dysgu dangos gofal ac ystyriaeth am bobl eraill, creaduriaid byw a'r amgylchedd.

Mae'r ysgol wedi'i dylunio'n dda iawn a cheir ystafelloedd dosbarth helaeth a manau mewnlol ac allanol priodol sy'n creu amgylchedd dysgu deniadol. Mae agweddau ar yr adeilad, er enghraifft y llyfrgell a'r ddarpariaeth yn yr awyr agored, wrthi'n cael eu datblygu o hyd.

Mae adnoddau o ansawdd uchel a cheir cyfleusterau ac offer cyfoes, er enghraifft mewn TGCh. Maent yn cefnogi pob agwedd ar addysgu a dysgu yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth, y corff llywodraethol a'r staff yn rhannu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar wella'r ysgol. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth strategol gref. Mae hi wedi rheoli'r cyfnod pontio i'r ysgol newydd yn effeithiol iawn. Mewn cyfnod byr, mae'r newidiadau a gyflwynwyd ganddi, er enghraifft mewn perthynas ag addysgu a chyfrifoldebau staff, yn cael effaith sylweddol ar safonau a darpariaeth. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel a dealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Mae'r dirprwy bennaeth yn darparu cymorth da ac mae'r uwch dîm rheoli yn rhagweithiol. Maent yn cyfrannu'n gadarnhaol at wneud penderfyniadau er mwyn symud yr ysgol ymlaen.

Mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd, yn rhannu arfer dda ac yn gweithio'n dda fel tîm. Mae gan bob un ohonynt feysydd cyfrifoldeb dynodedig. Maent yn ymgymryd â'u rolau yn effeithiol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol. Mae llywodraethwyr yn gefnogol ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i godi safonau. Mae llawer ohonynt yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd. Maent yn datblygu eu rôl, er enghraifft mewn perthynas â monitro cynnydd trwy ddeall data ar berfformiad. Mae adroddiadau cynhwysfawr y pennaeth yn sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n dda. Mae eu

presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddi a chyflwyniadau gan staff a disgyblion yn codi eu hymwybyddiaeth am flaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol hefyd.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, mae codi safonau mewn llythrennedd a rhifedd a lleihau anfantais yn agweddau pwysig ar gynllun datblygu presennol yr ysgol.

Gwella ansawdd: Da

Mae gweithdrefnau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac effeithiol. Mae uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol yn monitro'r effaith ar safonau a darpariaeth yn barhaus.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o dystiolaeth uniongyrchol yn dda i bennu ei blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'n holi safbwyntiau rhieni yn rheolaidd ac yn trafod gyda disgyblion, llywodraethwyr a rhanddeiliaid eraill i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu. Er enghraifft, mae eu hawgrymiadau wedi cyfrannu mewn modd adeiladol at ddylunio adeilad yr ysgol newydd a'r amgylchedd dysgu allanol.

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth a chydlynwyr pwnc yn arsylwi gwersi i fonitro addysgu a dysgu yn unol ag amserlen gytûn. Mae athrawon yn gwrando ar ddysgwyr yn rheolaidd hefyd, a chynhelir adolygiadau parhaus o waith disgyblion sy'n cynnwys ystod o staff a llywodraethwyr. Mae'r dystiolaeth a gesglir yn cyfrannu'n helaeth at broses hunanarfarnu'r ysgol, er enghraifft yn yr ymdrech i wella ansawdd yr addysgu a chodi safonau mewn llythrennedd.

Mae'r ysgol yn cynnal dadansoddiad trylwyr o ddata ar berfformiad, sy'n galluogi staff i asesu cynnydd disgyblion yn gywir, nodi tueddiadau mewn perfformiad a rhoi cymorth i unrhyw unigolion neu grwpiau sy'n tangyflawni, er enghraifft mewn medrau sylfaenol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol yn cysylltu'n agos â'r adroddiad hunanarfarnu ac mae'n cynnwys blaenoriaethau realistig a thargedau heriol a mesuradwy. Mae'r camau a gymerwyd eisoes wedi arwain at welliannau sylweddol, er enghraifft wrth ddarllen a defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae partneriaethau effeithiol yn bodoli gyda rhieni, y gymuned, ysgolion eraill yn y clwstwr a phartneriaid addysgol, gan gynnwys y coleg lleol a sefydliadau hyfforddi athrawon.

Mae cysylltiadau buddiol gyda sefydliad cyn-ysgol lleol ac fe geir trefniadau pontio cryf gyda'r ysgol uwchradd y mae'r disgyblion yn trosglwyddo iddi, gan gynnwys ymweliadau a phrosiectau amrywiol. Caiff y cysylltiadau hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd lles a dysgu disgyblion ac maent yn sicrhau eu bod yn cael eu paratoi'n dda iawn ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae gan yr ysgol ran weithredol yn y trefniadau clwstwr ysgolion lleol ar gyfer asesu, cymedroli a safoni gwaith disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, er bod hwn yn faes i'w ddatblygu ymhellach yn yr ysgol.

Mae cysylltiadau defnyddiol gydag ystod o sefydliadau cymunedol, gan gynnwys y grŵp Cymunedau yn Gyntaf, eglwys y plwyf a siopau lleol. Mae côr yr ysgol yn cymryd rhan mewn cyngherddau yn y gymuned a thu hwnt, er enghraifft yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Mae'r profiadau hyn yn helpu i ehangu a chyfoethogi dysgu disgyblion.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae gan athrawon gymwysterau a phrofiad addas. Mae gan gynorthwywyr cymorth rolau priodol ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at ddysgu disgyblion.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad, wedi'u harwain gan yr uwch dîm rheoli, yn bodloni gofynion statudol. Caiff pob un o'r athrawon a'r staff cymorth eu cynnwys. Mae pob un ohonynt yn cymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi mewnol ac allanol rheolaidd yn unol â'u targedau datblygiad proffesiynol a phersonol a blaenoriaethau ysgol gyfan. Mae rhai ohonynt wedi ymweld ag ysgolion eraill hefyd i arsylwi arfer dda. Mae pob un o'r trefniadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu.

Nid yw'r ysgol yn ymwneud llawer â rhwydweithiau o arfer broffesiynol ar hyn o bryd, er enghraifft o fewn y clwstwr neu'i theulu o ysgolion, er ei bod wedi ymuno â chymuned ddysgu broffesiynol a ffurfiwyd yn ddiweddar sy'n edrych ar dechnolegau newydd.

Caiff pob athro amser cynllunio, paratoi ac asesu bob wythnos, yn ogystal â chyfleoedd i fonitro eu meysydd cyfrifoldeb pan fydd angen. Mae aelodau o'r uwch dîm rheoli ac arweinwyr targed blaenoriaeth yn cael oriau rheoli digyswllt rheolaidd hefyd. Yn ychwanegol, caiff staff cymorth amser i gynllunio trwy ymgynghori â staff addysgu. Mae'r gweithdrefnau hyn yn helpu i greu gwaith tîm effeithiol a chodi morâl staff er mwyn symud yr ysgol ymlaen.

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadeiladau, ei hadnoddau a'i chyllideb yn dda ac mae rheolaethau ariannol da ar waith. Mae wrthi'n prynu adnoddau sy'n berthnasol i'w chwricwlwm presennol ac anghenion canfyddedig yr ysgol newydd.

Oherwydd y diffygion canfyddedig yn neilliannau disgyblion, gwerth digonol am arian yn unig y mae'r ysgol yn ei ddarparu ar hyn o bryd.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013 ar y deilliant 5 disgwylidig a'r deilliant 6 uwch, roedd perfformiad disgyblion ymhell islaw cyfartaledd y teulu mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a medrau personol a chymdeithasol. At ei gilydd, roedd canlyniadau ychydig yn well nag yr oeddent yn 2012. O gymharu ag ysgolion tebyg, fe wnaeth cyrhaeddiad ym mhob un o'r tri maes ar y ddwy lefel ar gyfer 2012 a 2013 osod yr ysgol yn y 25% isaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad ar y lefel 4 ddisgwylidig a'r lefel 5 uwch wedi amrywio'n sylweddol. Yn 2013, roedd perfformiad disgyblion ar y lefel ddisgwylidig mewn Saesneg a mathemateg uwchlaw cyfartaledd y teulu, ac roedd yn debyg mewn gwyddoniaeth. Ar y lefel uwch, roedd islaw cyfartaledd y teulu mewn Saesneg a gwyddoniaeth, ond yn uwch mewn mathemateg. Mewn Saesneg ar y ddwy lefel, mae'r ysgol wedi symud rhwng y 25% isaf a'r 50% is o ysgolion tebyg. Mewn mathemateg, mae wedi symud rhwng y 25% uchaf ac isaf ar y lefel ddisgwylidig a rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf ar y lefel uwch. Mewn gwyddoniaeth, mae wedi symud rhwng y 50% uwch a'r 25% isaf ar y lefel ddisgwylidig a rhwng y 50% is a'r 25% isaf ar y lefel uwch.

Mae nifer sylweddol o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol â lefel isel o fedrau, ond mae bron pob un ohonynt yn gwneud y cynnydd disgwylidig trwy'r ysgol ac mae rhai ohonynt yn rhagori ar eu targedau. Nid oes unrhyw grwpiau penodol yn tangyflawni'n barhaus, er nad yw bechgyn, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2, yn aml yn gwneud cystal mewn darllen ac ysgrifennu. Hefyd, nid yw'r disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni eu potensial, yn enwedig mewn llythrennedd.

Mae data a gwybodaeth olrhain yr ysgol yn awgrymu nad yw disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio cystal â'u cyfoedion yn y ddau gyfnod allweddol.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid – ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Holiadur Cynradd (Cyffredinol)

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	78	77 99%	1 1%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	77	76 99%	1 1%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	78	78 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	78	77 99%	1 1%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		98%	2%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	76	76 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	77	74 96%	3 4%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	78	78 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	78	78 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	78	73 94%	5 6%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	78	78 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	76	55 72%	21 28%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	78	60 77%	18 23%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	97	77 79%	18 19%	2 2%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	97	75 77%	22 23%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	94	74 79%	18 19%	1 1%	0 0%	1	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	95	68 72%	23 24%	3 3%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	95	49 52%	36 38%	5 5%	0 0%	5	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	97	76 78%	19 20%	2 2%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	97	69 71%	27 28%	1 1%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	97	50 52%	39 40%	5 5%	1 1%	2	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	92	64 70%	25 27%	2 2%	0 0%	1	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	3%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	95	68 72%	23 24%	3 3%	0 0%	1	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	94	73 78%	21 22%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs.	91	63 69%	24 26%	1 1%	0 0%	3	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	96	68 71%	21 22%	6 6%	0 0%	1	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	96	72 75%	21 22%	2 2%	0 0%	1	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	95	64 67%	23 24%	6 6%	0 0%	2	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	95	69 73%	23 24%	0 0%	0 0%	3	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		56%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	92	53 58%	26 28%	5 5%	1 1%	7	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	96	64 67%	31 32%	0 0%	0 0%	1	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	94	67 71%	26 28%	1 1%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

David Peter Ellis	Arolygydd Cofnodol
Mary Elspeth Dyas	Arolygydd Tîm
Julie Ann Price	Arolygydd Lleyg
Karen Olds	Arolygydd Cymheiriaid
Debra Todd	Enwebai

Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.